Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 455 MAI 2023 | AM DDIM

## GWOBR AUR SIARTER IAITH I YSGOL GYFUN TREGŴYR

-ELLIE THOMAS

(CYDLYNYDD ETHOS CYMRAEG A DWYIEITHRWYDD YGG TREGŴYR)

Ar Fawrth 31ain, fe enillodd Ysgol Gyfun Tregŵyr y Wobr Aur Siarter Iaith - Cymraeg Campus. Nhw yw'r ysgol gyntaf yn Sir Abertawe i ennill y Wobr Aur a'r ail ysgol uwchradd yng Nghymru i ennill y Wobr Aur. Mae eu Criw Cymraeg wedi gweithio'n galed i helpu'r gymuned i wella'u sgiliau Cymraeg. Maent yn ymweld â chaffis lleol er mwyn addysgu Cymraeg bob dydd i'r gymuned. Maent yn darparu Cwrs Mynediad i'r gymuned ar eu safle. Yn ogystal â hyn, maent yn cydweithio gyda busnesau lleol er mwyn addysgu'r disgyblion am fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.



Maent yn rhannu arfer dda gydag ysgolion ar draws siroedd ac yn creu fideos am hanes yr ardal leol er mwyn gwella dealltwriaeth y gymuned o hanes yr ardal leol. Mae ethos Cymraeg yr Ysgol wedi mynd o nerth i nerth ac mae agweddau'r staff a'r disgyblion tuag at y Gymraeg wedi datblygu'n llawer. Mae'r ysgol gyfan wedi cyfrannu at newid gweledigaeth yr Ysgol.

## PENODI ELWEN EVANS YN IS-GANGHELLOR PRIFYSGOL Y DRINDOD DEWI SANT

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd yr Athro Elwen Evans KC, sy'n Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, ac yn Ddeon Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, ei phenodi'n Is-Ganghellor Prifysgol y Drindod Dewi Sant, i olynu'r Athro Medwin Hughes.

Daeth Elwen Evans i Brifysgol Abertawe yn 2015 pan gafodd ei phenodi'n Bennaeth Coleg y Gyfraith a Throseddeg, a chefnogi dysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yma mae ganddi gyfrifoldeb am y Gymraeg a diwylliant Cymru yn y brifysgol.

Roedd hi'n bennaeth Siambrau Iscoed yn y ddinas am dros 15 mlynedd cyn ymuno â'r brifysgol.



Astudiodd y gyfraith yng Ngholeg Girton, Caergrawnt a galwyd hi i'r Bar gan Gray's Inn yn 1980. Penodwyd hi'n Gwnsler y Frenhines yn 2002.

Bu'n amlwg mewn achosion yng nghymru, gan arwain y tîm erlyn yn achos April Jones, a thîm yr amddiffyn yn achos trychineb Glofa Gleision. Mae hi'n aelod o Orsedd y Beirdd ers 2014.

Hi'n awr fydd y fenyw gyntaf i arwain sefydliadau prifysgolion cysylltiedig â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant a'i rhagflaenwyr.

Daw Elwen Evans yn wreiddiol o Ddyffryn Clwyd, yn Gymraes, a dewisodd ddilyn ei gyrfa yng Nghymru gan ddefnyddio'r iaith ar bob cyfle.

## CÔR YSGOL GELLIONNEN YN YMUNO Â PHLANT O GYMUNED TSIEINEAIDD ABERTAWE YN EU PERFFORMIAD CANU CYNTAF YN YSTOD GŴYL CYCHOD Y DDRAIG CYN BO HIR

-HEINI GRUFFUDD

Bydd Athrofa Confucius Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn dathlu Gŵyl Cychod y Ddraig 2023 ar 18 Mehefin yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe gyda bore o berfformiadau o ganeuon a barddoniaeth gan blant o Ysgol Tsieineaidd Athrofa Confucius, a phrynhawn o weithdai diwylliant Tsieineaidd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r digwyddiad yn ddathliad nid yn unig ar gyfer Ysgol Tsieineaidd Abertawe ond holl gymuned Abertawe.

Sefydlwyd yr Ysgol Tsieineaidd gan Athrofa Confucius y Drindod Dewi Sant yn 2016 i ddarparu addysg ar gyfer plant â threftadaeth Tsieineaidd yn ne Cymru, addysg sy'n eu cysylltu â'u hiaith a'u diwylliant ac mae'r ysgol yn cwrdd bob penwythnos yn ystod y tymor. Ar ôl y pandemig, mae gan yr ysgol 120 o ddisgyblion o 5 i 18 oed. I ddathlu Gŵyl Cychod y Ddraig mae'r plant wedi bod yn dysgu cerddi Tsieineeg clasurol a chaneuon poblogaidd.

Fel digwyddiad cymunedol a thraws-ddiwylliannol, mae disgyblion o Ysgol Gellionnen wedi ffurfio côr plant Mandarin cyntaf Cymru ac maent wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan fel gwesteion arbennig. Byddant yn rhoi eu perfformiad cyhoeddus cyntaf o'r caneuon Tsieineeg maent wedi bod yn eu dysgu gydag athrawes Athrofa Confucius y Drindod Dewi Sant, Cindy Chen.

Meddai Pennaeth Ysgol Gellionnen, Kevin Davies: "Rydym ni wrth ein boddau i dderbyn gwahoddiad i fod yn rhan o Ŵyl Cychod y Ddraig ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn i berfformio mewn cytgord o fewn y byd amlddiwylliannol lle rydym ni bellach yn byw yn ein cymuned leol.

"Mae Ysgol Gellionnen wedi creu cysylltiad cryf iawn rhwng Athrofa Confucius a'i disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf gyda Mr Niles Guo yn gosod sylfeini cadarn y mae'r disgyblion wedi gallu ffynnu arnynt dan gyfarwyddyd Mrs Cindy Chen.

"Gyda'i weledigaeth a'i chreadigrwydd, mae'r disgyblion wedi ymgysylltu'n drwyadl, gan ddysgu am y diwylliant a'r traddodiadau drwy brofiadau ymarferol megis gemau awyr agored a gweithgareddau."

Dywedodd fod disgyblion wedi datblygu'r gallu i ddarllen testunau syml ac maent yn dod yn fwy cyfarwydd â rheolau gramadeg a thôn.

"Wedi dysgu penillion Tawel Nos mewn 4 iaith wahanol yn cynnwys Mandarin ar gyfer cyngerdd Nadolig 2022, ganwyd y syniad o ddatblygu côr Tsieineaidd ac ym mis



Ebrill mewn datblygiad cyffrous crëwyd Côr Mandarin gyda disgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 yn cymryd rhan mewn sesiynau canu wythnosol."

Ychwanegodd Yu Liu, Cyd-gyfarwyddwr Athrofa Confucius yn y Drindod Dewi Sant: "Rwy'n gobeithio y bydd hwn yn gyfle gwych, pan fydd disgyblion o Gymru yn gallu canu gyda'r disgyblion â Threftadaeth Tsieineaidd, mae hyn hefyd yn gallu tystio bod prydferthwch y diwylliant yn gallu cael ei rannu'n gyfartal gan bobl o ble bynnag maent yn dod, a bydd y rhannu'n cario ymlaen o genhedlaeth i genhedlaeth".

Llefaru caneuon a cherddi clasurol yw gweithgaredd traddodiadol pobl Tsieineaidd i ddathlu Gŵyl Cychod y Ddraig drwy'r oesoedd.

"Gobeithio bydd y digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion yr Ysgol Sul Tsieineaidd a'u rhieni werthfawrogi llenyddiaeth brydferth glasurol Tseineaidd, ac yn dod ag awyrgylch trochol o'r miri traddodiadol Tsieineaidd i'r gymuned leol".

Yn ystod prynhawn rhaglen Gŵyl Cychod y Ddraig, darperir gweithdai diwylliannol Tsieineaidd a drefnwyd gan staff a gwirfoddolwyr Athrofa Confucius, yn cynnwys torri papur, caligraffeg, gwisgoedd Tsieineaidd ac offerynnau Tsieineaidd.

## ARWEINYDD NEWYDD I GÔR TŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD



Pleser i Gôr Tŷ Tawe ganol Mai oedd croesawu arweinydd newydd.
Daeth Bethan Wynne Phillips i arwain y côr am y tro cyntaf, gyda'r gobaith o ail-lansio'r côr ym mis Medi.
Daw Bethan o Dreforys a daw ei theulu o Dreforys a Chwmtwrch. Yr athronydd Dewi Z Phillips oedd ei thad-cu ac mae'r bardd Thomas Levi yn ei hachau.
Bu'r athrawes cerddoriaeth yn ysgolion cyfun Cymraeg Llanhari a Llangynwyd.
Mae croeso i aelodau newydd, bob nos Fercher am 7 yn Nhŷ Tawe.

## OPRA CYMRU'N DISGLEIRIO

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd y gynulleidfa yn Theatr Taliesin wledd wrth wylio Ysgol Ddrud yw Ysgol Gariad, y cyfieithiad Cymraeg cyntaf o Cosi fan Tutte, Mozart.
Iwan Teifion Davies, cyfarwyddwr cerddoril y cwmni oedd y cyfieithydd ac arweinydd y gerddorfa fywiog.
Roedd y cast dawnus yn cynnwys y tenor Huw Ynyr yn rhan Ferrando a'r bariton ifanc a phrofiadol John Ieuan Jones ganodd ran Gugliemino. Dwy Erin swynol, Erin Gwyn Rossington ac Erin Fflur ganodd rannau'r ddwy chwaer, Fiodiligi a Dorabella.
Cafwyd canu cyfoethog gan Rhys Jenkins yn rhan Don Alfonso a chanu ac actio gwych gan Leah-Marian Jones fel y forwyn Despina.
Roedd y cynhyrchiad yn fywiog a llawn dychymyg a hiwmor, a'r gerddorfa ifanc yn cyfeilio'n grefftus.
Llongyfarchiadau i Patrick Young a'i dîm ar gyrraedd uchafbwynt eto yn hanes Opra Cymru.



## CAP I ALICEA!

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau i Alicea Knight o flwyddyn 13, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, sydd wedi derbyn ei chap am chwarae i dîm rygbi cyffwrdd cymysg Cymru dan 18. Cystadlodd Alicea gyda'r garfan yn Ffrainc yn y pencampwriaethau Ewropeaidd ym mis Awst y llynedd. Mae twrnament yr Atlantic Youth Cup yn digwydd yn Nottingham yr haf hwn ac mae Alicea yn croesi ei bysedd bydd lle iddi yn y garfan!
Mae Alicea yng nghanol ei harholiadau lefel A ar hyn o bryd ac yn gobeithio mynd i Brifysgol Metropolitaidd Caerdydd ym mis Medi i astudio Plismona Proffesiynol, gyda'r gobaith wrth gwrs o gynrychioli'r brifysgol.

Pob dymuniad da i ti Alicea!






## DATHLU CARREG FILLTIR CYFEILLION GŴYR

-DAFYDD WILLIAMS

Mae un o'r grwpiau pwyso mwyaf llwyddiannus drwy wledydd Prydain - Cyfeillion Gŵyr - yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed eleni.
Sefydlwyd y mudiad dan arweiniad y meddyg a chenedlaetholwr lleol Dr Gwent Jones i warchod treftadaeth ac amgylchedd yr ardal, sy'n cynnwys yr ucheldir rhwng yr afonydd Tawe ac Aman yn ogystal â'r penrhyn. Mae mab Dr Gwent, Guto Ap Gwent, yn gadeirydd presennol prif bwyllgor y gymdeithas.

Trefnwyd cyflwyniad arbennig gan Sefydliad Brenhinol De Cymru (Royal Institution of South Wales) a gefnogodd Gyfeillion Gŵyr o'r dechrau, gyda Malcolm a Ruth Ridge o Gyfeillion Gŵyr yn traddodi darlith ddarluniedig ardderchog yn Amgueddfa Abertawe.

Yn y llun mae Malcolm a Ruth yn dangos map rhyfeddol o Benrhyn Gŵyr a grëwyd yn ystod y rhyfel gan un o sylfaenwyr eraill Cyfeillion Gŵyr, Jim Rees, pan oedd ond 17 oed. Dim ond eleni y cafodd y map ei ailddarganfod wrth i'w weddw glirio eu tŷ yn Ardal y Llynnoedd - ond yn awr bydd copïau ar werth gan Gyfeillion Gŵyr.




## SESIWN BORE SADWRN O NERTH I NERTH

-HEINI GRUFFUDD

Mae sesiynau paned a sgwrs bob bore Sadwrn yn Nhŷ Tawe'n llwyddo i ddenu siaradwyr newydd bob wythnos.
Mae tua ugain yn dod at ei gilydd am ddwy awr, ac wynebau newydd i'w gweld yn gyson. Mae rhai wedi bod yn dysgu ers tipyn, rhai wedi meistroli, ac eraill yn newydd.
Gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am y sesiynau, rhwng 10 a 12 bob bore Sadwrn. Mae'r siop ar agor yr un pryd, rhwng 10 a 2 bob Sadwrn.



# Y CINIO MAWR

## MEHEFIN 2023

**Dewch â'ch cymdogion at ei gilydd i ddathlu eich cymuned.**

Am fanylion llawn ac i archebu pecyn dwyieithog AM DDIM ewch i

**YCINIOMAWR.COM**



**#YCINIOMAWR**

y cinio mawr
the big lunch

eden project

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Ysgol Gynradd Cymraeg Gellionnen

Un gymdeithas dan y canghennau

**Gwahoddiad Agored i Ddathliad 25 mlynedd**

i gyn-lywodraethwyr, cyn-staff a ffrindiau'r ysgol

Tê a theisen a hel atgofion
yng Nghlwb Criced Clydach
ar ddydd Iau 20fed o Orffennaf
am 4 o'r gloch tan 6 o'r gloch

Siaradwr gwâdd:- Mrs Linda Gruffudd, Pennaeth Cyntaf yr Ysgol

Barn...

## CYNGERDD MAWR BOREUOL

-ROB EVANS

Erbyn hyn mae'r tymheredd wedi codi digon i mi gadw ffenest yr ystafell wely ar agor trwy'r nos. Fel fore godwr dw i'n deffro am bump bob bore, ia, dw i'n gwybod, dach chi ddim yn gyfarwydd â phump o'r gloch, nac ydach. Ond mae pump o'r gloch yn digwydd pob bore ac ym misoedd Ebrill a Mai mae'r awyr yn llawn o gerddoriaeth hollol naturiol – côr y wig!

Ond pwy sydd yn canu? Mae cân y fwyalchen yn hawdd adnabod, ond y lleill? Dros y blynyddoedd dw i wedi trio fy ngorau i adnabod y lleisiau, ac yn methu'n llwyr. Ond yn ddiweddar wnaeth fy ffôn ffyddlon farw yn sydyn ac roeddwn yn gwybod yn syth y byddai'n gorfod cael un newydd, un cymhleth ac un sydd yn llawer rhy fawr. Ffônau clyfar maen nhw'n eu galw nhw ac yn sicr maen nhw'n fwy clyfar na fi, hyd yn oed!

Roedd yr wythnosau cyntaf yn hunllef a'r peth yn chwarae tiwn trwy'r amser, ac am ddim rheswm. Roeddwn yn teimlo bod fy mywyd yn cael ei gymryd drosodd gan y ffôn. Mae o'n llawer rhy fawr i roi yn fy mhoced. A ninnau yn byw mewn amser pan mae popeth yn mynd yn llai.

Ac wedyn wnaeth ffrind ddweud wrtha i am 'apps'. Am be dw i eisiau 'app'? pethau hollol wirion ydyn nhw. Ond dysgais fod yna 'app' sydd yn gallu adnabod lleisiau adar! Yn well byth roedd o'n rhad ac am ddim. Mewn llai na munud roedd o ar y ffôn ac eisteddais i lawr yn yr ardd a throi o ymlaen. A dyma ni rhestr yn cael ei greu o'r holl adar oedd yn canu

Y Fronfraith fach a fawr, dryw, robin goch, titw o bob math, aderyn y to a'r berth, y dringwr bach, telor yr helyg, nico a melyn yr eithin. Mae yna drac sain ar gyfer bob aderyn ac mae hynny'n gwneud pethau'n haws. Mi fydd yn cymryd amser i adnabod pob un wrth gwrs ond mae dod i adnabod nhw yn rhoi pleser mawr i mi.

Dw i'n edrych ymlaen at bump bob bore ac wrth fy modd yn eistedd a chael cyngerdd. Cyngerdd byd natur.

Er mwyn cael yr un pleser defnyddiwch eich ffôn clyfar i adnabod sŵn yr adar sydd o'ch cwmpas.

Barn...

## SYLW I WILIA YN Y SENEDD

-HEINI GRUFFUDD

Cododd Mike Hedges AS bwysigrwydd papur bro lleol a thynnodd sylw at y gwaith a wneir gan y rhai sy'n cynhyrchu Wilia bob mis.

Gofynnodd hefyd am ddatganiad gan y Llywodraeth ar ddyfodol papurau bro yng Nghymru. "Mae'r rhain yn bapurau bro Cymraeg, lleol a gynhyrchir gan wirfoddolwyr ac a gyhoeddir yn fisol yn gyffredinol. Yn Abertawe, mae gennym ni Wilia, sy'n dda iawn, ac sydd bellach wedi mynd ar-lein, ond bod copi papur ar gael am ddim hefyd. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr i gadw i fyny â'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion Cymraeg, y cymdeithasau Cymraeg lleol, a chapeli cyfrwng Cymraeg. Rwy'n gofyn am gynllun gan y Llywodraeth ar gyfer parhad yr adnoddau hanfodol hyn."

"Mae papurau bro yn ffynonellau cwbl unigryw yma yng Nghymru ar gyfer ein newyddion cymunedol Cymraeg. Rydym yn ddiolchgar iawn am waith llawer o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed iawn i sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi bob mis."

Mae Gweinidog y Gymraeg a Addysg wedi cyhoeddi cymorth chwyddiannol untro ar gyfer sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant iaith Gymraeg, a bydd y rhwydwaith o bapurau bro yn derbyn £6,000 ychwanegol.

Barn...

## RALI YN YR HAUL

-HEINI GRUFFUDD

Mwynhaodd rhyw bum mil o orymdeithwyr heulwen mis Mai yn Abertawe ddydd Sadwrn yr 20fed i ddangos cefnogaeth i annibyniaeth Cymru.

Mirain Owen, o Dreforys, a fu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe oedd un o'r siaradwyr mwyaf grymus. Soniodd am dlodi plant a chymunedau yng Nghymru, yn ganlyniad rheolaeth aneffeithiol a diffyg diddordeb llywodraethau ar hyd y can mlynedd diwethaf.

Roedd y gorymdeithwyr yn ymwybodol, wrth gerdded heibio i Gastell Abertawe, bod Cymry naw can mlynedd yn ôl wedi ymosod ar gastell y concwerwyr. Prin y byddai'r Cymry y pryd hwnnw wedi gallu breuddwydio bod y syniad o Gymru annibynnol yn dal yn fyw ymhen naw can mlynedd.

Yn ôl cofnod Brut y Tywysogion am ymgyrch Gruffudd am Rhys yn y flwyddyn 1113 meddir, "ac wedi hynny yr anfones ef ei gydmeithion i ddwyn cyrch am ben kastell a oedd i Henri iarll a elwid de Beomunt yn Abertawy ac ni chawsant hefyd ddim rhag y kastellwyr namyn llosgi y rhagkastell ac ymchwelyd drachefn wedi lladd rhai ohonynt,"

Digon heddychlon oedd gorymdeithwyr mis Mai, ond mae'n siwr bod ganddynt yr un awydd i weld parhad eu gwlad.





Barn...

## ARIAN TEG I GYMRU - PLAID CYMRU

-DAFYDD WILLIAMS

Mae Plaid Cymru Abertawe wedi cefnogi ymgyrch i sicrhau rhan deg o gyllid ar gyfer rheilffyrdd Cymru.

Dywedodd llefarydd Gŵyr y Blaid, John Davies, bod agwedd presennol y Trysorlys yn bolisi sinigaidd sy'n rhwystro Cymru rhag derbyn buddsoddiad sydd ei angen i wella gwasanaethau trafnidiaeth ein gwlad.

"Drwy alw'r prosiect HS2, sy'n costio £71 biliwn HS2 yn brosiect 'Lloegr a Chymru' mae llywodraeth Llundain yn osgoi ei gyfrifoldeb i sicrhau buddsoddiad cyfatebol i Gymru", meddai Mr Davies, a fu'n ymgeisydd yn etholiad Senedd Cymru yn 2021.

"Bellach, gyda chefnogaeth pob plaid yn Senedd Cymru dros safiad Plaid Cymru, dylai'r Trysorlys ryddhau'r arian sydd ei angen yng Nghymru ar unwaith."

Barn...

## TWTS TŶ TAWE

Sesiwn newydd i rieni, babis a phlant o dan 5 oed yn Nhŷ Tawe! Pob dydd Gwener, 1pm-2pm. Gweithgareddau amrywiol fel sesiynau canu, stori a chrefft!




## COFFI A CHLONC

Galwch draw i Dŷ Tawe ar fore dydd Iau am siawns i sgwrsio am ymarfer eich Cymraeg!

Sesiwn gyntaf - Mehefin 8fed




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mehefin erbyn Mehefin 19eg trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

## GŴYL TAWE 2023

Mae Gŵyl Tawe, yn dychwelyd ar ddydd Sadwrn y 10fed o Fehefin i leoliad newydd eleni yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Bydd yr ŵyl yn cynnwys perfformiadau gan sêr y byd cerddoriaeth Cymraeg gan gynnwys Adwaith, Sage Todz a llawer mwy, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau i'r holl deulu.

Mae'r ŵyl yn hollol rad ac am ddim, a bydd yn rhedeg rhwng 10:00 a 20:00. Mae'r digwyddiad yma yn cael ei gynnal mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, a gyda chefnogaeth gan Gyngor Abertawe, Cyngor Celfyddydau Cymru, Coleg Gŵyr Abertawe, a Llywodraeth Cymru trwy Cymru Greadigol.

I ddechrau'r digwyddiad yn y bore, bydd sioe theatr ryngweithiol i deuluoedd gan Familia de la Noche.

Yng nghyntedd yr amgueddfa, fe fydd arlwy o stondinau a gweithgareddau gan bartneriaid fel Coleg Gŵyr Abertawe, Siop Tŷ Tawe, Canolfan Celfyddydau'r Taliesin, Oriel Mission a Mudiad Meithrin.

Bydd gweithgareddau gwyddonol gan Technocamps, a bydd yr artist Rhys Padarn Jones yn cynnig gweithdy fydd yn galluogi mynychwyr i greu ychydig o waith yn ei arddull Orielodl unigryw.

Bydd cyfle hefyd i fwynhau sesiynau stori a chân gan Cymraeg i Blant, a sesiynau blasu gan Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn ystafelloedd dysgu'r amgueddfa.

Mi fydd hi'n ddiwrnod llawn hwyl gyda rhywbeth at ddant pawb, felly dewch i ymuno â ni!

LINE-UP AC AMSERLEN LAWN GŴYL TAWE AR Y DUDALEN NESAF

## LLWYFAN CREATIVE WALES

| Artist | Time |
| --- | --- |
| ADWAITH | 19:10 - 20:00 |
| MR | 17:40 - 18:25 |
| LOS BLANCOS | 16:15 - 17:00 |
| ANI GLASS | 14:55 - 15:35 |
| ROGUE JONES | 13:35 - 14:15 |
| THE GENTLE GOOD | 12:15 - 12:55 |
| YSGOLION ABERTAWE | 10:50 - 12:05 |
| FAMILIA DE LA NOCHE - BROGA Y BOGS | 10:10 - 10:50 |

## LLWYFAN COLEG GŴYR

| Artist | Time |
| --- | --- |
| SAGE TODZ + LLOYD & DOM | 18:25 - 19:10 |
| SYBS | 17:00 - 17:40 |
| HYLL | 15:35 - 16:15 |
| SHE'S GOT SPIES | 14:15 - 14:55 |
| GILLIE | 12:55 - 13:35 |

10.06.23 ABERTAWE

# GŴYL TAWE

ADWAITH

ANI GLASS

GILLIE

HYLL

LOS BLANCOS

LLOYD X DOM +DON

MR

ROGUE JONES

SAGE TODZ

STONDINAU

SHE'S GOT SPIES

AM DDIM

SYBS

THE GENTLE GOOD

FAMILIA DE LA NOCHE
(SIOE THEATR I BLANT A THEULUOEDD)

GWEITHDAI CELF ORIELODL

YSGOLION ABERTAWE

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
10:00 - 20:00

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Cymru Greadigol
Creative Wales